



Perfformiad Cwmni'r Frân Wen o *Sbectol Haul* yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Cyngor Celfyddydau Cymru

# Adroddiad Blynyddol am y Gymraeg 2017/18



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from  
**Y LOTERI GENEDLAETHOL**  
**THE NATIONAL LOTTERY®**



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, hawdd i'w ddarllen ac ar ffurf sain. Ymdrechwn i ddarparu ar gais gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg.

Gweithredwn bolisi cyfle cyfartal.



"Y Gymraeg yn anad dim sy'n gwneud Cymru yn unigryw. Drwyddi y cawn ddeall a mwynhau llenyddiaeth a diwylliant hynod gyfoethog. Mae celfyddydau'n ffynnu ar hyn ac maent yn allweddol i gynnal swyddogaeth yr iaith wrth wraidd bywyd Cymru."

**Marian Wyn Jones**  
Aelod o'r Cyngor,  
Cadeirydd, Grŵp Monitro'r Gymraeg

---

## Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg ar Saesneg ar sail gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus. Sefydlodd y Mesur hwn hefyd Gomisiynydd y Gymraeg yng Nghymru. Mae gan y Comisiynydd gyfrifoldeb am orfodi dyletswyddau cyfreithiol y Mesur drwy gyfres o Safonau.

Rhaid i gyrff cyhoeddus, megis Cyngor Celfyddydau Cymru, gyhoeddi dogfen bolisi sy'n egluro sut y bwriadant gyflawni'r ymrwymiad hwn. Cyhoeddir ein dogfen, *Polisi hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg*, ar ein gwefan.

<http://www.celf.cymru/amdanom-ni/llywodraeth/polisau-corfforaethol/iaith-gymraeg>

Dyma Adroddiad Blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2017/18. Rhydd wybodaeth am ein perfformiad yn erbyn y nodau, uchelgeisiau a gofynion a amlinellir yn ein dogfen bolisi a'n cynllun gweithredu am y Gymraeg, 2017/18.

Yn **Atodiad 1** mae adroddiad diwedd y flwyddyn i'n cynllun, 2017/18.

## Cylch gorchwyl

Sefydlwyd y cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp monitro yn ei gyfarfod cychwynnol ym Mai 2003. (Cânt eu hadolygu ac, os oes angen, eu diwygio'n flynyddol gan y Cyngor bob mis Mawrth.)

### Rôl y grŵp

1. adolygu, monitro a chyfrannu at ddatblygu polisiau a gweithdrefnau a alluoga'r Cyngor i fynd ar drywydd agenda blaengar i hyrwyddo ei wasanaeth dwyieithog fel y nodir yn ei gynllun Cymraeg a chan gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
2. helpu Cyngor a'i swyddogion i sicrhau bod ei weithgareddau yn y maes hwn yn gyson ag uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau Dyfodol Llywodraeth Cymru
3. helpu Cyngor a'i swyddogion i ymgorffori dwyieithrwydd yn agwedd arferol ar fuddsoddiad, prosesau a rhaglenni gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru
4. cyfrannu at fonitro cydymffurfiad Cyngor Celfyddydau Cymru â holl ofynion statudol a rheoleiddiol perthnasol, gan gynnwys unrhyw ddyletswyddau cyffredinol a phenodol sy'n gysylltiedig, gan gynnwys monitro gweithredu cynllun gweithredu y Gymraeg
5. cyngori ar ddatblygu, gweithredu a monitro prosiectau datblygu penodol
6. cynnig arweiniad a chyngor i'w sefydliadau refeniw ar ofynion safonau'r Gymraeg ac i'w holl sefydliadau a gaiff arian prosiect, ac i eraill sy'n dibynnu ar rwydwaith Cyngor Celfyddydau Cymru, ar sut i adlewyrchu natur ddwyieithog y Gymru gyfoes
7. Bydd y grŵp yn sicrhau y cydymffurfir â'r swyddogaethau hyn drwy fabwysiadu'r canlynol:
  - a) goruchwyllo'n weithredol effeithiolrwydd gweithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru wrth ddangos ymrwymiad i ddwyieithrwydd yn egwyddor lywodraethol sylfaenol ac yn nod yn ei Siarter Frenhinol
  - b) Monitro gweithrediad gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys Safonau'r Gymraeg, Cynllun y Gymraeg a'r cynllun gweithredu a'r adolygiad o asesiadau effaith ar gydraddoldeb)
  - c) Cynnig arweiniad a chyngor ar swyddogaeth y cyfieithydd mewnol
  - d) Delio â chwynion o natur ieithyddol
  - e) Cefnogi'r defnydd o'r iaith yn y celfyddydau

- f) Darparu cyngor ac arweiniad ar faterion dwyieithog er buddion artistiaid a sefydliadau celfyddydol
- g) Cyngori ar fentrau er cynorthwyo hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff Cyngor Celfyddydau Cymru
- h) Gwneud argymhellion i'r Uwch-dîm Arwain a'r Cyngor am unrhyw un o'r uchod

## Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

Un o'r ffyrdd amlwg inni fynegi ein hunain yw drwy'r geiriau a'r iaith a ddefnyddiwn. Cenedl ddwyieithog ydym - yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, ac yn unigolion a chymunedau. Y Gymraeg yn anad dim sy'n gwneud Cymru yn unigryw. Mae'r iaith yn fodd i ddeall a mwynhau llenyddiaeth a diwylliant hynod gyfoethog. Mae'r celfyddydau'n ffynnu ar hyn ac maent yn allweddol i gynnal swyddogaeth yr iaith wrth wraidd bywyd Cymru.

Mae gan y Cyngor ymrwymiad diamwys i'r pwysigrwydd o ddatblygu a hyrwyddo'r celfyddydau yn y Gymraeg ac amddiffynnwn yn egniol hawl pobl i archwilio eu diwylliant eu hunain a'u creadigrwydd eu hunain, drwy eu dewis iaith – yn ddefnyddiwr, yn gyfranogwr neu'n artist.

### Beth a wnawn

Darparwn wasanaeth dwyieithog llawn yn unol â Safonau'r Gymraeg a'n cynllun Cymraeg.

I fonitro cynnydd a llywio ein gwaith yn y maes hwn, rydym wedi sefydlu **Grŵp Monitro'r Gymraeg**. Cadeirir ef gan aelod o'r Cyngor ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r staff ar draws ein sefydliad. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter.

## Ystadegau allweddol

Mae'n bwysig ein bod yn deall orau y gallwn fath ac ystod y materion ieithyddol sy'n berthnasol i fywyd cyfoes Cymru.

### Y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg

Mae gwybodaeth y cyfrifiad yn dangos y tueddiadau canlynol.

	1991	2001	2011
Canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg	18.7%	20.8%	19.0%
Nifer y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg	508,000	582,000	562,000

Ffynhonnell: Cyfrifiad 1991, 2001 a 2011

Er bod y ganran a nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wedi gostwng rhwng 2001 a 2011, mae nifer y siaradwyr Cymraeg mewn gwirionedd yn uwch nag a gofnodwyd ym 1991.

### Mae'r gwahaniaethau rhwng 2001 a 2011 yn amrywio yn ôl grŵp oedran.

Bu cynnydd sylweddol ar gyfer plant iau (3-4 oed), cynnydd bychan ar gyfer oedolion yn yr oed 20-44, a gostyngiadau ar gyfer pob grŵp oed arall.

	3-4 oed		20-44 oed	
	2001	2011	2001	2011
Canran o'r grŵp oedran sy'n gallu siarad Cymraeg	18.8%	23.3%	15.5%	15.6%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a 2011

### Mynychu'r celfyddydau a chyfranogi ohonynt

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn annog pobl i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau.

Bob blwyddyn y comisiynwn ymchwil annibynnol – Omnibws Cymru – i asesu beth sy'n digwydd i gynulleidfa oedd a chyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg.

## Omnibws yr oedolion


Mae'r ffigurau ar gyfer y boblogaeth mewn oed fel a ganlyn:

Canran Siaradwyr Cymraeg sy'n mynychu'r celfyddydau neu'n cymryd rhan ynddynt unwaith y flwyddyn neu'n amlach, 2011-2017							
	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Mynychu	78%	79%	83%	81%	81%	80%	91%
Cyfranogi	37%	46%	44%	47%	49%	50%	53%

Ffynhonnell: Adroddiad Omnibws Cymru 2011, 2012, 2013, 2014, 2015, 2016 a 2017

- mynychodd 90.6% o oedolion Cymraeg o leiaf un digwyddiad celfyddydol, unwaith y flwyddyn neu'n amlach
- bu cynnydd yn y lefelau cyfranogi gan siaradwyr Cymraeg o 2.7 pwynt canran o 2016, gyda 52.7% yn cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach


## Data am y Gymraeg o adroddiad Arolwg Omnibws 2017



Sail: Pob oedolyn (2016:1, 004, 2017:1, 021) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2016-2017

- Mae 2017 yn dangos cynnydd mawr yn y siaradwyr Cymraeg sy'n mynychu'r celfyddydau, cynnydd o 11 pwynt canran i 90.6%. Mae hyn yn cymharu ag ychydig dros dri chwarter o'r rhai di-Gymraeg a oedd yn mynychu'r celfyddydau yn y ddwy flynedd, 77%.
- Cynyddodd y bwlch rhwng siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg o 1.9 pwynt canran yn 2016 i 13.2 pwynt canran yn 2017.

**Dadansoddiad pellach o fynychu'r celfyddydau yn ôl y Gymraeg**  
(canran sy'n mynychu'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: Pob oedolyn (2016:1, 004, 2017:1, 021) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2016-2017

Er bod cyfran y rhai di-Gymraeg sy'n mynychu'r celfyddydau wedi aros yr un fath rhwng 2016 a 2017 sef 77%, dengys y dadansoddiad o'r rhai sy'n siarad Cymraeg eu bod wedi cynyddu ar bob lefel o ruglder.

Mae siaradwyr Cymraeg rhugl wedi cynyddu 18.8 pwynt canran sy'n golygu bod ychydig dros 90% erbyn hyn sy'n mynychu'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach, tra cynyddodd y siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl gan 5.2 pwynt canran gyda 89.2% yn mynychu'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach.




## Cyfranogi o'r celfyddydau



Sail: Pob oedolyn (2016:1, 004, 2017:1, 021) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2016-2017

- mae siaradwyr Cymraeg, sef 52.7%, yn parhau i fod yn fwy tebygol na'r rhai di-Gymraeg (43.5%) i gymryd rhan mewn gweithgareddau artistig
- cynyddodd y bwlch yn y cyfraddau cyfranogi rhwng siaradwyr Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg i 9.2 pwynt canran yn 2017, o gymharu â 6.5 pwynt canran yn 2016



Sail: Pob oedolyn (2016:1, 004, 2017:1, 021) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2016-2017

- mae siaradwyr Cymraeg rhugl wedi cynyddu lefelau eu cyfranogi yn 2017, gyda bron i hanner, 49.4%, sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach, gan gynyddu gan 4.9 pwynt canran o 2016
- mae ychydig dros hanner (55%) o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach ac mae hyn hefyd wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol o 1.1 pwynt canran


### Omnibws y plant

Canran y plant Cymraeg eu hiaith (rhwng 7 a 18 oed) sy'n mynychu'r celfyddydau neu'n cymryd rhan ynddynt, unwaith y flwyddyn neu'n amlach 2010-2017								
	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Mynychu	80%	86%	85%	89%	91%	88%	86%	90%
Cyfranogi	82%	90%	87%	88%	86%	90%	91%	90%

Ffynhonnell: Adroddiad Omnibws Ymchwil Beaufort Cymru 2010, 2011, 2012, 2013, 2014, 2015, 2016 a 2017

- yn 2017, mae 89.9% o siaradwyr Cymraeg yn mynychu'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach, mae hyn wedi cynyddu gan 3.1 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol
- cyfranogodd 89.9% o siaradwyr Cymraeg hefyd yn 2017 o weithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach, gan gynnal bron yr un lefelau o weithgarwch ag yn 2016, pan gymerodd 90.6% ran mewn gweithgareddau celfyddydol

## Data am y Gymraeg a gymerwyd o adroddiad arolwg Omnibws y Plant, 2017




Sail: Pob un yn yr oed 7-18 (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Omnibws y Plant, 2015-2017

Yn 2017, roedd y rhai â rhywfaint o Gymraeg wedi mynychu'r celfyddydau ag amllder uwch (89.9%) na'r rhai di-Gymraeg (84.9%).

I'r ddau grŵp bu cynnydd ond ychydig yn fwy felly i'r rhai di-Gymraeg gyda chynnydd o 4.5 pwynt canran o gymharu â 3.1 pwynt canran ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae gan siaradwyr Cymraeg o hyd gyfartaledd uwch o fynychu.

**Dadansoddiad pellach o fynychu'r celfyddydau yn ôl y Gymraeg**  
(canran sy'n mynychu'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: Pob un yn yr oed 7-18 (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Omnibws y Plant, 2015-2017

Gan ganolbwyntio ar y cysylltiad rhwng gallu yn y Gymraeg a mynychu'r celfyddydau mewn rhagor o fanylder, mae gan y rhai sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg, ond nad ydynt yn rhugl, lefelau uwch na'r cyfartaledd o fynychu (sef 90%), megis y rhai sy'n rhugl (sef 89.7%). Fodd bynnag, mae gan y rhai di-Gymraeg lefel is na'r cyfartaledd o fynychu o 84.9%.


**Cyfranogi o'r celfyddydau**

**Cyfranogi o'r celfyddydau yn ôl y Gymraeg**  
(canran sy'n cyfranogi o'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: Pob un yn yr oed 7-18 (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Omnibws y Plant, 2015-2017

- mae gan y rhai sy'n siarad Cymraeg gyfraddau cyfranogi ychydig yn uwch sef 89.9% yn 2017 o gymharu ag 85.9% i'r rhai di-Gymraeg
- Er bod gan siaradwyr Cymraeg lefel ychydig yn uwch o gyfranogi o'r celfyddydau, arhosodd lefel y gweithgarwch ymhlith y grŵp hwn yn gymharol sefydlog (tua 90%) dros y cyfnod o dair blynedd. Fodd bynnag, ers y flwyddyn flaenorol cynyddodd lefel y gweithgarwch gan y rhai di-Gymraeg gan 2.4 pwynt canran o 83.5% i 85.9% gan wrthdroi'r gostyngiad a oedd y cyfnod adrodd diwethaf. Mae hyn hefyd unwaith eto wedi lleihau'r bwlch rhwng y ddau grŵp o 7.1 pwynt canran yn 2016 i 4 pwynt canran yn 2017



Saill: Pob un yn yr oed 7-18 (o leiaf 1,000 y don) Ffynhonnell: Omnibws y Plant, 2015-2017

Mae lefelau ychydig iawn yn uwch o gyfranogi ymhlith plant a phobl ifainc sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg ond nad ydynt yn rhugl, o'u cymharu â'r rhai sy'n rhugl. Mae'r gyfran sy'n siarad Cymraeg ond nad ydynt yn rhugl yn aros yn gyson ers 2015. O'r rheini sy'n rhugl yn y Gymraeg, mae eu lefelau o gyfranogiad yn yr ystod o 86.6% (yn 2015) i 87.4% (yn 2017).

### Beth a wnawn

Byddwn ni'n:

- monitro effaith (cadarnhaol a negyddol) ar y Gymraeg gan bob polisi, prosiect a chynnig newydd
- annog adborth gan siaradwyr Cymraeg a grwpiau Cymraeg

## Gweithgarwch a ariennir

### Arian y Loteri

Er nad yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'w wneud, rydym yn annog pob sefydliad a ariannwn i geisio gweithredu yn ôl ysbryd y Ddeddf. Rydym yn gwahodd sefydliadau yn eu ceisiadau am arian i fynd i'r afael â sut y maent yn adlewyrchu natur ddwyieithog y gymuned y maent yn gweithredu ynddi a'r cynulleidfaoedd a dargedant.

Yn ystod 2017/18 arianasom 463 prosiect loteri, a oedd eto'n ddirywiad sylweddol ar y blynyddoedd 2013/14, 2014/15 a 2016/17. Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiadau cyffredinol yn y lefelau o arian sydd ar gael inni o'r Loteri. O'u ceisiadau, roedd ymgeiswyr yn darparu eu prosiectau yn yr ieithoedd canlynol:

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Nifer o brosiectau loteri a ariannwyd	589	553	860	722	591	539	463
Saesneg	477	259	440	359	298	267	216
Cymraeg / Saesneg	81	249	361	302	242	211	205
Cymraeg	30	28	33	41	28	29	21
Amhenodol		16	26	16	20	27	12
Arall		1	0	4	3	5	9

Mae'r ffigurau uchod yn dangos amrywiadau yn nifer y prosiectau a gynigid drwy gyfrwng y Gymraeg a rhai a oedd yn ddwyieithog, gyda nifer y rhai yn y Gymraeg yn unig yn gostwng yn sylweddol. Mae'r amrywiadau'n debygol o fod yn ganlyniad i newidiadau yng ngeiriad y ffurflenni cais yn hytrach na chynnydd trawiadol mewn gweithgarwch dwyieithog. Adolygwn yn gyson y tueddiadau yn y maes hwn.

### Beth a wnawn

Byddwn yn defnyddio'r data a gasglwn ar ystadegau Cymraeg mewn perthynas â sut y dosberthir ein harian i:

- asesu'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob grant a roddwn
- datblygu mentrau targedol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodwyd neu unrhyw feysydd heb gynrychiolaeth ddigonol

## Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau

	2015/16	2016/17	2017/18
Nifer y prosiectau Dysgu Creadigol a ariannwyd	109	295	544
Saesneg	95	234	393
Cymraeg / Saesneg	4	14	13
Cymraeg	10	47	136
Eraill			2

## Adroddiad Data Cymraeg Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

Yn Ionawr 2017, dangosai data arolwg cyfrifiad yr ysgolion fod cyfanswm o 1,547 ysgol yng Nghymru a gynhelir gan yr awdurdodau lleol

Roedd 420 ysgol gynradd Gymraeg, 6 ysgol ganolradd Gymraeg a 49 ysgol uwchradd Gymraeg – cyfanswm o 475 ysgol Gymraeg (mae data'r cyfrifiad yn cynnwys y rhai sy'n ddwy ffrwd). Ychydig dan draean o ysgolion Cymru, felly.

### Profi'r Celfyddydau

- Cafodd 126 ysgol Gymraeg a dwyieithog allan o 342 (37%) arian Ewch i Weld
- Cafodd 64 ysgol Gymraeg allan o 132 ysgol (48%) arian Cydweithio Creadigol
- Roedd 45 ysgol Gymraeg wedi mynd i weld rhywbeth Saesneg drwy Ewch i Weld
- Roedd 25 ysgol Gymraeg wedi gwneud gweithgaredd Saesneg drwy Gydweithio Creadigol
- 95 digwyddiad Cymraeg (28%) a fynychwyd yn rhan o'r cynllun Ewch i Weld
- Cafodd 26 digwyddiad Cydweithio Creadigol allan o 45 (58%) eu darparu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ysgolion Creadigol Arweiniol

Ym Mawrth 2018, cyfanswm yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol oedd 548. O'r rhain roedd 116 ysgol Gymraeg a 432 yn ysgolion Saesneg. Mae hyn yn cynrychioli 24% o'r ysgolion Gymraeg (116 allan o 475).

### Asiantau Creadigol

Ar hyn o bryd mae 233 asiant creadigol sy'n gweithio mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol, gyda chyfanswm o 80 asiant Cymraeg ar draws y cynllun.

## Portffolio Celfyddydol Cymru

Yn y Portffolio mae'r sefydliadau hynny sy'n derbyn arian grant rheolaidd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, a ddyfernir yn flynyddol, tuag at eu rhaglen flynyddol o weithgarwch.

Mae ein Portffolio'n amrywio o gwmnïau cenedlaethol â bri rhyngwladol, i eraill sy'n gweithredu ar raddfa lai sydd, yn aml, yn dewis gweithio gyda chymunedau mwy lleol. Disgwylir i sefydliadau mwy gael Cynllun Cymraeg a bydd yn ofynnol iddynt fabwysiadu Safonau llawn. Mae pob un o'n cwmnïau cenedlaethol wedi cyhoeddi polisi Gymraeg.

Mae un o brif feysydd ein strategaeth o ran datblygu'r celfyddydau, *Ysbrydoli*, yn sôn am ddod â gweithgarwch celfyddydol o safon i gyrraedd haws rhagor o bobl ledled Cymru. Felly mae ein Portffolio'n gwneud y gwaith pwysig o farcio ar fap lle mae modd cael hygyrchedd at y celfyddydau – y pwyntiau penodol yn eu hardal leol lle darperir rhaglen o weithgareddau drwy'r flwyddyn.

O gofio bod y sefydliadau hyn yn bartneriaid hanfodol o ran cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru, rydym yn disgwyl iddynt goleddu ysbryd yr ymrwymiadau a wnawn yn ein Cynllun Cymraeg. Diffinnir ein disgwyliadau yn y cytundebau ariannu sydd gennym â nhw.

Adolygwn berfformiad ein Portffolio bob blwyddyn. Gwneir rhywfaint o gynnydd, gyda lefelau o ymgysylltu â'r Gymraeg sy'n amrywio.

Bu ychydig o welliant yn nifer y sefydliadau a ddaeth yn nes at fodloni ein disgwyliadau. Disgrifir rhai sefydliadau o hyd yn fodolau o'r arfer orau o ran cyfathrebu dwyieithog (gwefannau, marchnata, rhaglenni) a rhagor o ddarpariaeth y rhaglen. Yng nghytundebau arian refeniw 2017/18, mae cynnal gwefan ddwyieithog yn ofyniad craidd i bob aelod o'r Portffolio. Cynhelir archwiliad o wefannau'r Portffolio yn flynyddol.



Mae gennym ddi-ddordeb amlwg mewn maint y gweithgarwch Cymraeg a hyrwyddir ac a gyflwynir gan y Portffolio. Mae'r ystadegau canlynol yn edrych ar lefelau mynychu a chyfranogi.

Mynychiadau Cymraeg						
	2016/17	2017/18	% Newid	2016/17	2017/18	% Newid
	Digwyddiadau	Digwyddiadau	Digwyddiadau	Mynychiadau	Mynychiadau	Mynychiadau
Dangosiadau ffilm	244	33	-86.5	6,729	2,573	-61.8
Perfformiadau gan gwmnïau teithiol	360	623	73.1	40,613	51,785	27.5
Perfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno	470	438	-6.8	53,711	57,262	6.6
Cyfansymiau	1,074	1,094	1.9	101,053	111,620	10.5

Ffynhonnell: Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru Sail: 67 sefydliad yn 2016/17 a 66 yn 2017/18

Cyfranogi Cymraeg						
	2016/17	2017/18	% Newid	2016/17	2017/18	% Newid
	Sesiynau	Sesiynau	Sesiynau	Mynychiadau	Mynychiadau	Mynychiadau
Plant a phobl ifainc	3,857	2,959	-23.3	137,911	85,765	-37.8
Cyffredinol	6,116	3,402	-44.4	53,709	37,279	-30.6
Cyfansymiau	9,973	6,361	-36.2	191,620	123,044	-35.8

Ffynhonnell: Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru Sail: 67 sefydliad yn 2016/17 a 66 yn 2017/18

## Beth a wnawn

Byddwn yn parhau i ofyn i'n cleientiaid Portffolio gynyddu nifer y digwyddiadau targedol Cymraeg neu weithgareddau cyfranogol, a lle mae gweithgarwch yn agored i bawb y ceisiant gynyddu eu ffigurau mynychu a chyfranogi. Byddwn yn monitro cynnydd drwy ffurflenni arolwg yn y dyfodol.

## Noson Allan - ffigurau Cymraeg

Noson Allan yw ein cynllun teithio cymunedol ar raddfa fechan. Mae'r cynllun yn gweithio gyda chymunedau lleol a hyrwyddwyr i lwyfannu perfformiadau mewn bröydd na allai fel arall gael hygyrchedd hawdd i ddarpariaeth gelfyddydol o safon.

Mae ffigurau cyffredinol Noson Allan yn debyg iawn i rai'r llynedd ac mae canran y cynyrchiadau Cymraeg a hyrwyddir drwy'r cynllun wedi gostwng ychydig i 25% (161 o 535 sioe)

Gallwn erbyn hyn fesuro perfformiadau dwyieithog ac ychwanegwyd y ffigur yn y tabl isod:

	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Nifer perfformiadau Noson Allan	574	580	574	533	521	535	513	511
Nifer yn y Gymraeg	142	113	140	140	147	160	126	140
% y cynyrchiadau Cymraeg	24.7%	19.5%	24.4%	26.3%	28.2%	30%	25%	27.4%
Perfformiadau dwyieithog						41(8%)	48 (9%)	50 (9.8%)

Yn ystod 2017/18, roedd gan 17 o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru berfformiad Noson Allan drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn codi i 21 o gynnwys sioeau dwyieithog. Caiff y mwyafrif helaeth o sioeau Cymraeg eu harchebu yn y Gogledd - Gwynedd, Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych (58.6%).

Sioeau Cymraeg							Sioeau Dwyieithog	
	2015/16	2015/16	2016/17	2016/17	2017/18	2017/18	2016/17	2017/18
	nifer	% sioeau Cymraeg	nifer	%	nifer	%	nifer	nifer
Ynys Môn	21	13.1	15	11.9	12	8.6	1	1
Blaenau Gwent	0	0	0	0	0	0	0	1
Pen-y-bont ar Ogwr	1	0.6	1	.79	0	0	1	0
Caerffili	0	0	0	0	0	0	1	3
Caerdydd	3	1.9	2	1.59	0	0	2	4
Caerfyrddin	18	11.3	8	6.35	7	5	4	8
Ceredigion	1	0.624	5	3.97	9	6	4	0
Conwy	8	5	3	2.38	7	5	1	3
Sir Ddinbych	12	7.5	13	10.32	13	9.3	0	2
Sir y Fflint	1	0.625	0	0	2	1.43	0	0
Gwynedd	68	42.5	49	38.89	50	35.7	4	5
Merthyr	3	1.875	1	.79	1	0.7	2	1
Mynwy	0	0	0	0	3	2.1	0	4
Castell-nedd	1	0.625	2	1.59	1	0.7	1	0
Casnewydd	0	0	0	0	1	0.7	2	1
Sir Benfro	3	1.875	1	.79	4	2.86	11	9
Powys	6	3.75	11	8.73	18	12.86	8	4
Y Rhondda	6	3.75	4	3.17	3	2.14	0	1
Abertawe	2	1.25	2	1.59	3	2.14	1	0
Torfaen	0	0	0	0	0	0	1	1
Bro Morgannwg	2	1.25	3	2.38	2	1.43	3	0
Wrecsam	4	2.5	6	4.76	4	2.86	1	2
	<b>160</b>		<b>126</b>		<b>140</b>		<b>48</b>	<b>50</b>

Cerddoriaeth o hyd yw'r gelfyddyd fwyaf poblogaidd i'w harchebu - er y gallai hyn fod hefyd oherwydd yr ystod lawer ehangach o gynnyrch sydd ar gael.

Erys drama'n boblogaidd (25%) gan gynyddu i 27% wrth gynnwys drama i bobl ifainc hefyd.

Celfyddyd	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
	% Cymraeg	% Cymraeg	% Cymraeg	% Cymraeg
Ceilidh-Twmpath	0	6.9	0.79	0
Syracas	8.4	0.6	0	0
Comedi	4.5	8.6	7.14	5
Dawns	0	0	0	1.43
Drama	20.1	13.2	19.04	25
Cerddoriaeth glasurol	3.4	0.6	2.38	0
Cerddoriaeth: gwreiddiau/ gwerin/Celtaidd	21.2	29.9	21.43	25
Cerddoriaeth jas	0	0.6	0.79	0
Cerddoriaeth caneuon poblogaidd	12.3	2.3	16.67	12.85
Cerddoriaeth roc/bop	5.6	2.9	4.76	7.85
Cerddoriaeth Band Pres	0	0.6	0	0
Cerddoriaeth y byd	0.6	1.2	1.59	0.7
Opera	1.1	0.6	0	0.7
Pypedau	0	3.4	0	1.43
Adrodd straeon	3.4	5.2	11.90	5.71
Theatr i bobl ifainc	2.8	17.8	5.56	2.14
Amrywiaeth	0	5.8	7.14	5.71
Theatr weledol neu gorfforol	0	0	0.79	1.43

## Beth a wnawn





Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg yn iaith gymunedol drwy sicrhau bod Noson Allan, a phrosiectau a mentrau allweddol eraill, yn targedu darpariaeth Gymraeg yn flaenoriaeth.


# Iaith a Chyflogaeth yn y Celfyddydau

## Sgiliau Cymraeg ymysg staff Cyngor Celfyddydau Cymru

Ar 31 Mawrth 2018 roeddem yn cyflogi 86 o bobl (a gynhwysid 15 cyflogai ar gontract tymor penodol). Mae hyn yn cyfateb i 78 person cyfwerth ag amser llawn. (Yn 2016/17, nifer y rhai cyfwerth ag amser llawn oedd 89). Roedd raid i bob aelod o staff ymgymryd â hunanasesiad o'i sgiliau Cymraeg yn 2017/2018.

O'r 86, cofnododd 50 fod eu sgiliau'n ganolradd (neu'n uwch) o ran y Gymraeg. Mae hyn yn cyfateb i 58.1% o'r staff. Dangosir canlyniadau llawn yr hunanasesiad isod. Bydd y rhain yn parhau i fod yn feincnod ar gyfer asesiadau'r dyfodol. Nid ymatebodd 5 aelod o staff i'r arolwg.






Er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n llawn â'r Safonau Cymraeg, cynigiwn gyrsiau Gymraeg unwaith eto yn ein cynllun dysgu a datblygu, 2018/19. Ar hyn o bryd datblygir a monitrir y cynllun hwn gan gasglu manylion oddi wrth arfarniadau a chynlluniau gwaith y staff. Yn ogystal â hyn, rhoddir ystyriaeth ofalus i ddisgrifiadau swydd yn y dyfodol a nodi'r Gymraeg yn hanfodol/dymunol er mwyn sicrhau bod digon o gynrychiolaeth Gymraeg ar draws adrannau.

Mae'r siart isod yn dangos bod nifer y staff (canolradd a gwell) sy'n siarad Cymraeg wedi codi ers 2016/17. Rydym yn parhau i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, fel sy'n ofynnol inni ei wneud. Cadwn lygad barcud o hyd ar y duedd ar i fyny, ac aseswn o hyd hefyd recriwtio yn y dyfodol o ran cynnal cydbwysedd ieithyddol priodol.

	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Staff Cymraeg yn % o'r cyfanswm	66	67.25	63.75	57.3	56.3	51.2	47	40.42	52

## Hyfedredd ôl gradd swydd



Dim Sylfaenol/Gwael Canolradd Da Da iawn

Ffynhonnell: Cascade

### Beth a wnawn

Byddwn yn sicrhau bod

- pob hysbyseb swydd yn datgan y gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg ac na chânt eu trin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- pob ffurflen gais yn caniatáu i unigolyn ddewis cyfweiliad naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg a bod modd defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd os yw'n briodol
- y broses ymsefydlu yn cael ei diwygio i gynnwys ymwybyddiaeth o ddiwylliant a hanes Cymru, Safonau'r Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
- gennym allu priodol yn y Gymraeg ar draws ein staff
- hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer dysgwyr y Gymraeg a'r rhai sydd am wella eu Cymraeg

## Sgiliau Cymraeg yn y Portffolio

Cyflogaeth	2016/17	2017/18	% Newid
Cyfanswm nifer y cyflogeion gan gynnwys gwirfoddolwyr	5,222	5,041	-3.5
Cyfanswm nifer y cyflogeion heb gynnwys gwirfoddolwyr	3,536	3,408	-3.6

Siaradwyr Cymraeg	2016/17	2017/18	% Newid
Cyfanswm nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg	1,278	968	-24.3

Ffynhonnell: Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru Sail: 67 sefydliad yn 2016/17 a 66 yn 2017/18

Byrddau rheoli	2016/17	2017/18	% Newid
Cyfanswm nifer yr aelodau o fyrddau rheoli	696	656	-5.7

Siaradwyr Cymraeg	2016/17	2017/18	% Newid
Cyfanswm nifer y siaradwyr Cymraeg ar fyrddau rheoli	222	210	-5.4

Ffynhonnell: Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru Sail: 67 sefydliad yn 2016/17 a 66 yn 2017/18

## Caffael

Mae'r holl wahoddiadau i dendro a gyhoeddwn yn annog ymatebwyr i ateb yn eu dewis iaith a bydd pob gohebiaeth wedyn yn newis iaith yr ymatebydd. Cynigir i'r holl gyfweleion o ganlyniad i'r ymarferiad tendro'r dewis o gael eu cyfarfod yn y Gymraeg, gan ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd os bydd angen.

## Cwynion

Rhan o'n hymrwymiad i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, yn fewnol ac yn allanol, yw cofnodi a monitro unrhyw gwynion a gawn ynghylch y Gymraeg. Gall cwynion ymwneud yn uniongyrchol â ni, neu â sefydliadau neu weithgareddau a arianasom.

Yn ystod 2017/18, cawsom gyfanswm o 3 chwyn. Roedd 2 yn ymwneud â gweithgareddau sefydliadau a arianasom, ac un a oedd am wall gweinyddol ynghylch cais am arian a dderbyniasom. Datryswyd y 3 yn llawn.




# Cynllun Gweithredu'r Gymraeg 2017/18 - adroddiad diwedd y flwyddyn

## Ein blaenoriaethau allanol

Gwneud - datblygu talent a chreadigrwydd

Gweithredu cyffredinol coch-oren-gwyrdd



Gweithgaredd	Allbynnau	Chwart2	Diweddariad diwedd y flwyddyn		
		COG	COG	Tuedd	Sylw
01. Monitro effaith gadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg yr holl bolisiau, prosiectau a chynigion newydd  Diwylliant Cydraddoldeb	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygiad o'r Gymraeg a gynhaliwyd yn rhan o'r broses asesiad effaith ar cydraddoldeb</li> <li>Diwygio'r templed o'r asesiad i gynnwys ystyriaeth o effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, y cynigion ar y Gymraeg yn rhan o'r asesiad effaith ar gydraddoldeb</li> </ul>	Oren	Oren	→	<p>Cynhelir asesiadau effaith ar gydraddoldeb fel rheol ar holl bolisiau newydd a diwygiedig a phrosiectau sylweddol. Mae templed asesiad effaith ar gydraddoldeb yn cynnwys ystyriaeth o unrhyw effaith negyddol bosibl ar y Gymraeg.</p> <p>Bydd angen inni adolygu a diwygio'r templed asesiad effaith ar gydraddoldeb am fod gwneud y newid hwn ar gyfer un nodwedd warchoddedig yn awgrymu y dylid ystyried gwneud ar gyfer pob un. Byddwn yn gwneud hyn i gyd-fynd â chyhoeddi cynllun cydraddoldeb diwygiedig.</p>

2. Sicrhau bod pob proses o ymgynghori agored yn

- a. annog adborth oddi wrth siaradwyr Cymraeg a grwpiau Cymraeg
- b. cynnwys ystyriaeth o sut y gellid llunio'r cynnig i gynnwys cyfleoedd ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg a sicrhau na thrinnir y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg



Diwylliant Cydraddoldeb

Cynnal dadl ac ymgysylltiad drwy gyfrwng y Gymraeg

Cynnwys ystyriaeth yn rhan safonol o'r ymgynghoriad




Cynhyrchu holl ymgynghoriadau yn ddwyieithog.

Mae ein proses bresennol o asesu'r effaith ar gydraddoldeb yn sicrhau na thrinnir y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg



# Cynllun gweithredu'r Gymraeg 2017/18


## Adroddiad diwedd y flwyddyn

Cyrraedd - annog rhagor o bobl i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt



Gweithgaredd	Allbynnau	Chwart2	Diweddariad ddiwedd y flwyddyn		
		COG	COG	Tuedd	Sylw
<p>03 Y Portffolio i gynyddu'r nifer o ddigwyddiadau targedol Cymraeg, neu weithgareddau cyfranogol, a lle mae gweithgaredd yn agored i bawb y maent yn ceisio cynyddu eu ffigurau mynychu a chyfranogi</p> <p><input checked="" type="checkbox"/> <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Diwylliant Cydraddoldeb</p> <p><input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Cymunedol</p>	<p>– Mae'r data a gasglwyd drwy arolwg o'r Portffolio</p>	<p>Heb ddechrau</p>	<p>Gwyrdd</p>	<p>↑</p>	<p>Cynhwysir ystyriaethau Cymraeg yn flaenoriaeth yn ein hamodau grant.</p> <p>Roedd 96% o'n cleientiaid Portffolio'n cynnal gwefan gwbl ddwyieithog. Erys 3 heb wneud. Mae cytundebau ariannu ar gyfer 2017/18 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno cynllun Cymraeg.</p> <p>Mae gan yr holl gwmnïau cenedlaethol, ac eithrio Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, gynlluniau gweithredu ar waith. Cafodd Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru estyniad gan y</p>

					Comisiynydd ac yn gwneud cynnydd boddhaol gyda'i gynllun.
<p>04. Hwrwyddo'r Gymraeg yn iaith gymunedol</p> <p><input checked="" type="checkbox"/> <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Diwylliant Gwydnwch</p> <p><input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Cymunedol</p>	<p>Mae prosiectau a mentrau allweddol, gan gynnwys rhaglen Noson Allan, yn targedu darpariaeth Gymraeg yn faes blaenoriaeth.</p> <p>Lledaeniad daearyddol sy'n gynrychioladol o ran meddygfeydd ariannu a lleoliadau cyfarfodydd cyhoeddus eraill</p>	Gwyrdd	Gwyrdd	<p></p>	<p>Mae'r galw cyffredinol am Noson Allan yn debyg i'r llynedd sef 511 sioe ar gyfer 2017/18</p> <p>(321 Saesneg, 140 Cymraeg a 50 dwyieithog).</p> <p>Mae cyngor am grantiau ar gael yn hollol ddwyieithog. Cynhelir pob Sgwrs Greadigol Cymru-gyfan yn ddwyieithog gyda gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob digwyddiad</p>
<p>05. Defnyddio'r data a gasglwn am ystadegau Cymraeg o ran sut y dosberthir ein harian er mwyn</p> <p>10. asesu'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob grant a roddwn</p> <p>11. Datblygu mentrau targedol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir neu unrhyw ardaloedd heb gynrychiolaeth ddigonol</p> <p><input checked="" type="checkbox"/> <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Diwylliant Gwydnwch</p> <p><input checked="" type="checkbox"/> <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Cymunedol Cydraddoldeb</p>	<p>Diwygio adroddiadau diweddu presennol i gynnwys gofyniad ychwanegol (a)</p> <p>Dadansoddi a defnyddio data i lywio ein gwaith datblygu yn y dyfodol</p> <p>Adrodd am gynnydd yn ein hadroddiad Cymraeg blynyddol</p>	Oren	Oren	<p></p>	<p>Bodlonir y safon hon yn rhannol.</p> <p>Er inni flaenoriaethu'r Gymraeg yn faes allweddol, nid ydym yn asesu'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob grant unigol a roddwn.</p> <p>Byddwn yn adolygu a diwygio ein proses bresennol am werthuso prosiectau a arianasom. Mae'r safon hon yn flaenoriaeth uchel wrth ystyried lefel y newid sydd ei angen ar ein prosesau presennol</p>

<p>06. Gwerthuso darpariaeth gweithgarwch a chyrraedd Cymraeg drwy Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau gan gynnwys</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. nifer y ceisiadau Cymraeg</li> <li>2. Nifer yr asiantau creadigol sy'n siarad Cymraeg</li> </ol> <p>Cymunedol Gwydnwch</p> <p>Cydraddoldeb</p>	<p>Dengys ffigurau fod canran debyg o ysgolion sy'n ymwneud â gweithgarwch Cymraeg â nifer yr ysgolion Cymraeg yng Nghymru</p>	<p>Oren</p>	<p>Oren</p>	<p></p> <p>Ceir 1541 ysgol yng Nghymru ac o'r rhain mae 479 (31%) yn ysgolion Cymraeg.</p> <p>Ym Mawrth 2018, 548 yw cyfanswm yr ysgolion sy'n cymryd rhan yng nghynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae 116 o'r rhain yn ysgolion Cymraeg a 432 yn rhai Saesneg. Mae hyn yn cynrychioli 24% o nifer yr ysgolion Cymraeg (116 allan o 475).</p> <p>Ar hyn o bryd ceir 233 asiant creadigol sy'n gweithio mewn ysgolion creadigol arweiniol. Cyfanswm yr asiantau creadigol Cymraeg sy'n gweithio ar draws y cynllun yw 80 (34% o'r cyfanswm).</p> <p>Cafodd 27% o'r ysgolion Cymraeg arian Ewch i Weld (126 o 475).</p> <p>Cafodd 13% o'r ysgolion Cymraeg arian Cydweithio Creadigol, (64 o 475).</p>
---	--	-------------	-------------	---

Cynnal - galluogi sector celfyddydol deinamig ac entrepreneuriaidd




Gweithgaredd	Allbynnau	Diweddariad ddiwedd y flwyddyn				
		Chwart2	COG	COG	Tuedd	Sylw
<p>07. Darparu gwasanaeth dwyieithog llawn yn unol â Safonau'r Gymraeg a'n cynllun Cymraeg</p> <p><input checked="" type="checkbox"/> <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Diwylliant Cymunedol</p> <p><input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Cydraddoldeb</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyhoeddi ar yr un pryd yn ddwyieithog holl ddeunydd corfforaethol allanol, gan gynnwys deunydd arddangos, mewn print, cyflwyniadau cyhoeddus (gan gynnwys cyflwyniadau PowerPoint)</li> <li>a ffurflenni ar-lein</li> <li>Diwygiasom dudalennau gwe a phenawdau llythyrau i gynnwys datganiad cyffredinol sy'n gwahodd y rhai sy'n eu derbyn i ohebu/galw yn y Gymraeg neu yn y Saesneg ac ni fydd gohebu/ffonio yn y Gymraeg yn arwain at oedi</li> <li>Cofnodi dewis iaith cwsmeriaid i gyfeirio at y dewis wedyn – pob gohebiaeth (gan gynnwys ceisiadau am arian) yn cael ateb yn yr iaith wreiddiol.</li> </ul>				<p>→</p> <p>Cynhyrchwn holl ddeunyddiau corfforaethol allanol yn ddwyieithog. Mae'r staff yn ymwybodol, fel rhan o gyflwyno'r Safonau, fod angen i holl gyflwyniadau PowerPoint fod yn ddwyieithog.</p> <p>Mae'r tudalennau gwe a phenawdau llythyrau yn cynnwys y datganiad.</p>	
			Gwyrdd	Gwyrdd		

	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Tystiolaeth o ddefnydd o'r Gymraeg a darpariaeth o wasanaethau cyfieithu ar y pryd ym mhob digwyddiad corfforaethol cyhoeddus</li> <li>– Mae pob aelod o staff i ddarparu cyfarchiad dwyieithog a darperir unrhyw hyfforddiant angenrheidiol</li> <li>– Cyngori pawb sy'n ffonio ar ein prif rif fod gwasanaeth Cymraeg ar gael</li> <li>– Wrth gysylltu ag unigolyn neu ei ffonio am y tro cyntaf, staff i ofyn beth yw dewis iaith y derbynnydd a'i chofnodi at y dyfodol.</li> <li>– Wrth wahodd unigolion i gyfarfod am y tro cyntaf, staff i ofyn beth yw eu dewis iaith a'i chofnodi at y dyfodol a threfnu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd os yw o leiaf 10% o'r cyfranogwyr yn mynegi dewisiadau o ran y Gymraeg</li> <li>– Rhaid i bob Ilif Trydar corfforaethol a gychwynnir gan unrhyw un o'n meysydd busnes fod yn ddwyieithog, gan gynnwys y Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Noson Allan</li> </ul>		<p>Mae hyn wedi'i wneud dros nifer o flynyddoedd ar gyfer ymgeiswyr am grant. Mae'r broses hon bellach wedi'i hymestyn am gyfathrebiadau nad ydynt yn gysylltiedig â grantiau.</p> <p>Darparwn gyfieithu ar y pryd ym mhob digwyddiad a chasglwn ffigurau ar y defnydd a fydd yn bwydo ein hadroddiad blynyddol.</p> <p>Sgript ar waith ar gyfer yr holl staff a darparwyd yr hyfforddiant i'r holl staff di-Gymraeg.</p> <p>Rydym wedi parhau i gynnig gwasanaeth dwyieithog, gyda thîm cwbl ddwyieithog sy'n cynnig cyngor am grantiau, delio ag ymholiadau cyffredinol a bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth a gwasanaethau switsfwrdd.</p> <p>Cynigir gwasanaethau cyfieithu ar y pryd i Gyfarfodydd Refeniw Blynyddol ac mae'r staff yn ymwybodol drwy hyfforddiant y dylid cynnig y cyfleuster hwn i gyfarfodydd grŵp eraill, e.e. cwmnïau cenedlaethol. Mae gweithdrefn i gipio dewisiadau iaith staff</p>
--	---	--	---

					<p>a chleientiaid ar waith.</p> <p>Mae pob lliif Trydar corfforaethol a gychwynnir gan unrhyw un o'n meysydd busnes yn ddwyieithog.</p>
<p>08. Polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau yn deg, cyfiawn a thryloyw ac yn bodloni gofynion ein cynllun Cymraeg</p> <p><input checked="" type="checkbox"/> <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Cydraddoldeb Gwydnwch</p> <p><input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Ffyniant</p>	<p>– Yr holl wahoddiadau i dendro i annog ymatebwyr i ateb yn eu dewis iaith ac anfonwn gohebiaeth wedyn yn eu dewis iaith</p> <p>– Cynnig i'r holl gyfweleion o ganlyniad i'r tendro'r dewis o gynnal eu cyfarfod yn y Gymraeg, gan ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd os bydd angen</p> <p>– Cynnwys data ac ystadegau yn yr adroddiad blynyddol</p>			<p>→</p>	<p>Mae ein templed gwahoddiad i dendro ar hyn o bryd yn annog ymatebwyr i gyflwyno cynigion yn eu dewis iaith. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith fel arfer.</p> <p>Tynnwyd sylw at y ddarpariaeth newydd hon yn rhaglen cyflwyno'r safonau i sicrhau bod holl wahoddiadau i dendro yn cynnwys gwybodaeth ar gyfleoedd cyfweiliad.</p> <p>Byddwn yn parhau i adrodd am ystyriaethau Cymraeg yn ein gweithgareddau caffael yn rhan o'n hadrodd blynyddol arferol</p>
<p>09. Galluogi artistiaid sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg i ddatblygu marchnadoedd rhyngwladol newydd ar gyfer eu gwaith</p>	<p>– Mynychu gan o leiaf 4 artist/grŵp Cymraeg ddigwyddiadau arddangos rhyngwladol yn ystod 2017/18</p>			<p>→</p>	<p>Ariannwyd 9 artist/grŵp Cymraeg i fynychu digwyddiadau arddangos rhyngwladol.</p> <p>Cafwyd presenoldeb dwyieithog gan gynnig artistig Cymru mewn digwyddiadau arddangos: gan gynnwys Womex.</p>




<p>10. Sicrhau bod yr holl waith ymchwil a gomisiynir neu yr ymgwymerir â hi i gynorthwyo llunio penderfyniad yn cynnwys ystyriaeth o'r canlynol</p> <p>a. cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg</p> <p>b. na thrinnir y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg</p> <p><input checked="" type="checkbox"/> <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Cydraddoldeb Gwydnwch</p>	<p>cynnwys ystyriaeth yn rhan o'r ymchwil fel rhywbeth safonol</p>	<p>Gwyrdd</p>	<p>Gwyrdd</p>	<p></p>	<p>Bodlonir y safon hon i raddau helaeth drwy arferion cyfredol ymchwil ac asesiad effaith cydraddoldeb.</p>

Cynllun Gweithredu Cymraeg 2017/18

Adroddiad diwedd y flwyddyn

Ein blaenoriaethau mewnol

Gwneud - datblygu sgiliau a gwybodaeth ein pobl



Gweithgaredd	Allbynnau	Chwart2			
		COG	COG	Tuedd	Sylw
<p>11. Darparu gwasanaeth dwyieithog llawn yn unol â safonau'r Gymraeg a'n cynllun Cymraeg</p> <p><input checked="" type="checkbox"/> <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Cydraddoldeb Gwydnwch</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cofnodi dewis iaith cwsmeriaid at y dyfodol ar gyfer gohebiaeth (gan gynnwys ceisiadau am arian)</li> <li>Pob aelod o staff i roi cyfarchiad dwyieithog a darperir unrhyw hyfforddiant sy'n angenrheidiol</li> <li>Cynghori pawb sy'n ffonio ar ein prif rif fod gwasanaeth Cymraeg ar gael</li> <li>Wrth gysylltu ag unigolyn neu ei ffonio am y tro cyntaf, staff i ofyn beth yw dewis iaith y derbynnydd a'i chofnodi at y dyfodol.</li> <li>Wrth wahodd unigolion i gyfarfod am y tro cyntaf, staff i ofyn beth yw eu dewis iaith a'i chofnodi at y dyfodol a threfnu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd os yw o leiaf 10% o'r</li> </ul>	Gwyrdd	Gwyrdd	→	<p>Taenlen ganolog ar waith i gofnodi dewis iaith pobl sy'n cysylltu - hygyrch i'r holl staff.</p> <p>Rhodddwyd i'n holl staff sgriptiau dwyieithog a chymorth, os oedd ei angen.</p> <p>Bodlonir y mesur ar hyn o bryd</p> <p>Gweler uchod. Dywedwyd wrth bob aelod o staff am y gofyniad yn rhan o hyfforddiant am y safonau a thaenlen</p>

	cyfranogwyr yn mynegi dewisiadau o ran y Gymraeg			ar waith i gasglu'r dewisiadau.  Gweler uchod. Dywedwyd wrth bob aelod o staff am y gofyniad
<p>12. Sicrhau bod ein systemau TG a seilwaith ein sefydliad yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg</p> <p><input checked="" type="checkbox"/> <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Cydraddoldeb Gwydnwch</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Systemau TGCh i gynnwys opsiwn am ryngwyneb Cymraeg a gwiriwr sillafu a gramadeg pan fo'r rhain ar gael</li> <li>Tudalennau mewnwyd yn cynnwys deunydd cymorth Cymraeg ar gyfer staff er mwyn helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle</li> <li>Holl hysbysiadau mewnol i'w harddangos yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf</li> </ul>		→	<p>Bodlonwyd y mesur.</p> <p>Bodlonwyd y mesur. Mae opsiynau ar gyfer hafan y fewnrwyd yn cael ei terfynoli</p> <p>Bodlonwyd y mesur.</p>

Cyrraedd - rhoi i'n staff ran o'n sefydliad newydd



Gweithgaredd	Allbynnau	Chwart2	Diweddariad ddiwedd y flwyddyn		
		COG	COG	Tuedd	Sylw
<p>13. Sicrhau bod yr opsiynau Cymraeg canlynol o'r agweddau ar adnoddau dynol ar gael i'r staff;</p> <p>Contractau cyflogaeth</p> <p>Unrhyw ohebiaeth bapur mewn perthynas â chyflogaeth unigolyn</p> <p>Gofynion hyfforddi</p> <p>Perfformiad ac arfarnu</p> <p>Cofnodion absenoldeb, gan gynnwys salwch a gwyliau blynyddol</p> <p>Holl bolisiau adnoddau dynol mewnol gan gynnwys cwynion mewnol</p> <p>Cyfarfodydd ag adnoddau dynol i drafod materion cysylltiedig</p> <p><input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Cydraddoldeb</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• diwygio polisiau adnoddau dynol i gynnwys y geiriad bod opsiynau'r Gymraeg sydd hefyd ar gael</li> <li>• cyfieithu a chyhoeddi templedi a pholisiau cyfredol adnoddau dynol ar Hwb</li> <li>• Staff yn ymwybodol bod opsiynau Cymraeg ar gael</li> <li>• Meddalwedd adnoddau dynol ar gael yn ddwyieithog</li> <li>• cyfarfodydd ag adnoddau dynol i drafod materion cysylltiedig yn newis iaith yr aelod unigol o'r staff</li> </ul>	Gwyrdd	Gwyrdd	→	<p>Ychwanegwn y geiriad hwn at y polisiau fel y cânt eu diwygio.</p> <p>Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a chanddo ddyddiad gorffen diwygiedig o Orffennaf 2018</p> <p>Bodlonwyd y mesur. Cynhwyswyd hyn yn rhan o'r briffiad am safonau'r Gymraeg i bob aelod o staff ac ar ein tudalen safonau ar y fewnwyd.</p>

				<p>Bodlonwyd y mesur. Mae opsiwn Cymraeg ar gyfer Cascade ar waith</p> <p>Bodlonwyd y mesur. Mae ffm adnoddau dynol yn gwbl ddwyieithog</p>
<p>14. Bodlonwyd yn llawn safonau'r Gymraeg o ran recriwtio staff</p> <p><input checked="" type="checkbox"/>                      <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Cydraddoldeb Gwydnwch</p> <p><input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Ffyniant</p>	<p>Pob hysbyseb swydd i ddatgan y gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg ac na trinnir y fath geisiadau'n llai ffafriol na'r Saesneg</p> <p>Pob ffurflen gais i adael yr unigolyn i ddewis cyfweiliad yn y Gymraeg neu'r Saesneg a bod modd defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd os yw'n briodol</p>			<p>→ Rhoddir gwybod i ymgeiswyr ar gyfer swyddi gwag drwy'r hysbysebion ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall. Gofynnir i ymgeiswyr nodi eu dewis iaith ar y ffurflen cyfle cyfartal ac mae datganiad sy'n dweud na fydd cyfathrebu yn y naill iaith neu'i gilydd yn arwain at oedi.</p> <p>Caiff ymgeiswyr eu hysbysu, lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd, y gellir cynnal cyfweiliadau ac asesiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>

Gwyrdd Gwyrdd

# Cynllun Gweithredu Cymraeg 2017/18

## Adroddiad diwedd y flwyddyn

Cynnal - creu Cyngor Celfyddydau sy'n ddeinamig ac entrepreneuriaidd



Gweithgaredd	Allbynnau	Chwart2	Diweddariad ddiwedd y flwyddyn		
		COG	COG	Tuedd	Sylw
<p>15. Celfyddydau Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau ac yn dangos agwedd gadarnhaol at faterion Gymraeg</p> <p><input checked="" type="checkbox"/> <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Diwylliant Cydraddoldeb</p> <p><input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Gwydnwch</p> <p><input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Cymunedol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyhoeddi cynllun Cymraeg ar gyfer 2017/18</li> <li>cynllun i'w fonitro</li> <li>Cyhoeddi dogfen ar ein gwefan i amlygu ein cynnydd wrth gydymffurfio â'n safonau</li> <li>cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad blynyddol am y Gymraeg ar gyfer 2016/17 sy'n cynnwys tystiolaeth o gydymffurfiaid â'r safonau, cofnodion, gwneud polisi a chwynion am y Gymraeg</li> <li>Grŵp monitro'r Gymraeg i gynghori'r Cyngor am ei asesiad o'r blaenoriaethau datblygu ar draws polisiau Cyngor y Celfyddydau</li> </ul>	Gwyrdd	Gwyrdd	→	<p>Caiff ei gyhoeddi yn rhan o'n hadroddiad blynyddol am y Gymraeg</p> <p>Gweithdrefnau ar waith ar gyfer monitro ac adrodd 6 misol i'r grŵp monitro, Uwchdîm Arwain a'r Cyngor</p> <p>Cyhoeddasom hysbysiad cydymffurfio a dogfennau polisi Gymraeg diwygiedig ar ein gwefan. Bydd diweddariadau am ein cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu blynyddol yn rhan o'n hadroddiadau</p>

				<p>blynyddol a gyhoeddiedir</p> <p>Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol am y Gymraeg yn sgil cael ei gymeradwyo</p>
<p>16. Sicrhau bod gennym allu Cymraeg priodol ar draws ein staff</p> <p><input checked="" type="checkbox"/> <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Cydraddoldeb Cymunedol</p> <p><input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Gwydnwch</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Isafswm o 50% o'n staff i allu siarad Cymraeg</li> <li>• Copïau i'w cadw o asesïadau gofynion am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd</li> <li>• Pob hysbyseb recriwtio i gynnig i ymgeiswyr broses ymgeisio hollol ddwyieithog</li> <li>• Asesiad blynyddol o sgiliau Cymraeg pob un o'r cyflogeion</li> <li>• Hyfforddiant i'w ddarparu ar gyfer dysgwyr y Gymraeg a'r rhai sydd am wella eu Cymraeg a chadw cofnodion ar gyfer diwedd y flwyddyn adrodd</li> <li>• Diwygio'r broses ymsefydlu i gynnwys ymwybyddiaeth o ddiwylliant a hanes Cymru, a safonau'r Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle</li> </ul>			<p>→ Ym Mawrth 2018 roedd 44% o'r staff ystyried eu sgiliau Gymraeg yn rhai da iawn/da. Mae'r ffigur hwn yn codi i 55% os ydym yn cynnwys y staff a nododd fod eu sgiliau siarad Cymraeg yn 'ganolig'.</p> <p>Cadwn gopïau o'r holl asesïadau o sgiliau iaith.</p> <p>Mae pob hysbyseb recriwtio yn cynnig i ymgeiswyr broses ymgeisio hollol ddwyieithog</p> <p>Trefnwyd hyfforddiant ar-lein i ddechreuwydrwy Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol. Ceisir opsiynau ar gyfer cyrsiau uwch ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'r adnoddau ar-lein hyn ar gael i'n holl staff drwy Hwb, drwy garedigrwydd Colegau Cymru</p>